O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 110 (Cy.27)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 32, Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

Gwnaed	*21 Ionawr 2011*
Yn dod i rym	*29 Ionawr 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd Llundain i'r De (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd") wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall **(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn**.**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Ionawr 2011 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 32, Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn :

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 29 Ionawr 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r draffordd" *("the length of the motorway")* yw'r darn hwnnw o brif gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd wrth Gyffordd 32, Cyfnewidfa Coryton, yn Ninas a Sir Caerdydd sy'n ymestyn o bwynt lle y mae'r ffordd ymadael tua'r dwyrain yn gwyro o brif gerbytffordd y draffordd hyd at bwynt lle y mae'r ffordd ymuno tua'r dwyrain yn uno â phrif gerbytffordd y draffordd.